ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Cyfle Pecyn Priodas a Dathlu

Gerddi Sophia, Caerdydd

* DIWYGIWYD 27.05.2021 *

		Tudalen
	Cyflwyniad a chefndir	**2**
	Ffurflen Cynnig	**12**
Atodiad 1	Cynllun llinell goch o'r ardal a gynigir dan y drwydded hon	**16**
Atodiad 2	Cyfarwyddiadau Blwch Trydan a Chyflenwad Dŵr ar gyfer Digwyddiadau yng Ngerddi Sophia	**18**
Atodiad 3	Gwybodaeth am Safle Ardal Digwyddiadau Gerddi Sophia	**23**
Atodiad 4	Templed yr Atodlen Weithredu	**28**
Atodiad 5	AMODAU TRWYDDED SAFLE: Ardal ddigwyddiadau Gerddi Sophia	**33**

Cyflwyniad a chefndir

Mae Gerddi Sophia yn barc rhestredig Gradd II gan CADW sydd ddim ond taith gerdded fer o stadiwm Principality, Castell Caerdydd a phrif strydoedd y ddinas a chyrchfannau economi'r nos. Mae'n gyfagos i afon Taf, maes parcio talu ac arddangos a Llwybr Taf. Mae'r parc yn cynnwys gofod digwyddiadau dynodedig sydd wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau awyr agored dros y blynyddoedd. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da i'r safle (gan gynnwys gorsaf fysiau Gerddi Sophia) ac mae'n agos at nifer o westai, lleoliadau gwely a brecwast a thai llety. Gweinir y safle gan brif ffordd sy'n mynd ar hyd yr ochr orllewinol.

Hoffai Cyngor Caerdydd wahodd gweithredwyr sydd â diddordeb i gyflwyno cynnig am y cyfle i ddod yn bartner â'r Cyngor a defnyddio'r safle fel a ganlyn:

- Darparu pecynnau priodas/dathliad preifat/corfforaethol/lletygarwch yn ardal ddigwyddiadau Gerddi Sophia.

Bydd y cyfle hwn yn caniatáu i'r gweithredwr werthu amrywiaeth o becynnau dathlu pen uchaf y farchnad i gleientiaid preifat. O becynnau priodas, dathliadau pen-blwydd, pecynnau parti swyddfa a phopeth tebyg. Mae gan y parc gefndir deniadol â chefndir coediog ar ochr y dwyrain a'r de a gellid defnyddio Parc Bute.

Dylid gwneud cais am unrhyw fath arall o ddigwyddiad a gynigir ar gyfer Gerddi Sophia yn y ffordd arferol drwy dudalennau digwyddiadau'r parciau ar wefan www.parc-bute.com

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Lleoliad

Dengys safle'r cyfle hwn isod. Rhoddir rhai lluniau enghreifftiol hefyd er gwybodaeth. Gweler **Atodiad 1** ar gyfer cynllun llinell goch o'r safle sydd ar gael.

Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SZ (Maint tua 4,000 milltir sgwâr / Dimensiynau tua 79m x 52m)

Amcanion y Cyfle

Bydd y cyfle hwn yn caniatáu i'r gweithredwr llwyddiannus ddarparu pecynnau dathlu awyr agored ym mhen uchaf y farchnad yn ardal ddigwyddiadau Gerddi Sophia i farchnad lle mae galw mawr oherwydd pandemig Covid-19. Mae Cyngor Caerdydd wedi cael nifer gynyddol o ymholiadau am gyfleoedd o'r fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond nid yw'n hawdd darparu ar gyfer y rhain ar sail ad hoc.

Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn dymuno cefnogi'r diwydiant lletygarwch i adfer wedi'r pandemig a chynyddu'r capasiti ar gyfer dathliadau diogel i'w ddinasyddion. Mae'r cyfnodau gweithredu a gynigir fel rhan o'r cyfle hwn yn sefydlog ac yn dechrau ym mis Medi 2021. Mae hyn yn caniatáu cynnal digwyddiadau eraill ar y safle a gadael i'r tir orffwys ac adfer rhyngddynt.

Mae cyfle i’r gweithredwr llwyddiannus greu lleoliad perffaith i'r rhai sy'n chwilio am le i ddathlu mewn ffordd wahanol a chofiadwy. Oherwydd bod y digwyddiadau y tu allan, gellir eu hystyried yn ddewis arall, mwy dichonol yn lle lleoliadau dan do tra mae’r amserlenni ar gyfer adferiad llawn wedi pandemig y Coronafeirws yn parhau i fod yn ansicr.

Am ffi drwydded y cytunir arni, caiff y gweithredwr llwyddiannus fanteisio ar y canlynol:

- Defnyddio parc hardd unigryw gyda glaswellt agored a chefndir coediog;
- Defnyddio trwydded safle gyfredol y safle;
- "Defnydd teg" o gyfleustodau ar y safle (pŵer a dŵr);
- Defnyddio lleoedd parcio talu ac arddangos (codir tâl) yn breifat dros dro neu ddim yn breifat;
- Amser staff Swyddfa Parc Bute, cyngor gan Banel Cyswllt Digwyddiadau (ELP) a chymorth ymgeisio gan y Panel Cyswllt Digwyddiadau;
- Cymorth marchnata drwy wefan Parc Bute a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Cyflwyniadau i dîm Trwyddedu'r Heddlu a chysylltiadau mewnol perthnasol y Cyngor a all gefnogi'r digwyddiad (e.e. tîm maes parcio, tîm casglu gwastraff, tîm rheoli traffig a swyddog diogelwch digwyddiadau);
- Cymorth ar y safle gan Oruchwyliwr Safle yn ystod y gwaith codi a dadosod (cytunir ar y gwerth maes o law)

Dyddiadau Gweithredu

Caniateir i'r gweithredwr llwyddiannus fasnachu am un neu ddau gyfnod o'r opsiynau a restrir isod. Rhoddir opsiynau yn 2021 a 2022 ond mae'n dal i fod yn aneglur pryd y caniateir lletygarwch o'r math hwn o dan reoliadau coronafeirws Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd y gweithredwr llwyddiannus yn manteisio ar 2 o'r cyfnodau gweithredu sefydlog.

Opsiwn A	Dydd Iau 2 Medi 2021 i ddydd Sul 26 Medi 2021
Opsiwn B	Dydd Iau 5 Mai 2022 i ddydd Llun 30 Mai 2022

Mae'r cyfnodau tua 3 wythnos o hyd ac maent yn cynnwys 4 penwythnos.

Bydd defnyddio'r safle dros y penwythnos gŵyl y Banc amgen ym mis Mai a/neu yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc mis Awst yn cael ei drafod a'i negodi gyda'r gweithredwr llwyddiannus.

Caiff y cyfle ei adolygu ar ôl cwblhau'r cyfnod cyntaf.

Cyfleustodau

Mae gan Gerddi Sophia gyflenwad trydan a dŵr ar y safle. Mae'r manylion llawn ar gael yn **Atodiad 2**.

Bydd darlleniadau mesuryddion yn cael eu cymryd cyn ac ar ôl y cyfnod gweithredu gan Oruchwyliwr y Safle.

Mae'r 30 metr ciwbig cyntaf (30,000 litr) o ddŵr yn gynhwysol yn ffi trwydded y safle. Codir tâl o £1.38 am bob metr ciwbig (m3) o ddŵr a ddefnyddir sy'n ychwanegol at y swm hwnnw.

Mae'r 500 kWh cyntaf yn gynhwysol yn ffi eich trwydded, codir £00.15 y kWh am drydan a ddefnyddir sy'n ychwanegol at hynny.

Bydd taliadau cyfleustodau yn cael eu hanfonebu ynghyd â ffi weinyddol safonol o £25 ar ôl y cyfnod gweithredu ar y gyfradd briodol, os oes angen.

Masnachu

Mae deiliad y drwydded yn rhydd i ddewis sawl diwrnod a pha rai y bydd yn masnachu yn ystod y cyfnod gweithredu.

Mae deiliad y drwydded yn rhydd i gynnal mwy nag un digwyddiad y dydd e.e. digwyddiad brecinio neu brynhawn a digwyddiad gyda'r nos ar yr un diwrnod.

Trwyddedu

Mae gan Erddi Sophia drwydded safle.

Bydd yn ofynnol i'r gweithredwr weithio o fewn cyfyngiadau'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda Chyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru. Darperir y drwydded safle yn **Atodiad 5** fel canllaw yn unig, ac mae'n ofynnol i'r gweithredwr llwyddiannus gael caniatâd ar gyfer ei weithgareddau trwyddedadwy arfaethedig penodol. Rhoddir caniatâd ar gyfer gweithredu ar y safle yn amodol ar gael cymeradwyaeth yr adran drwyddedu.

Dylid cyflwyno amserlen weithredu i Heddlu De Cymru ar gyfer y defnydd arfaethedig nid hwyrach na 56 diwrnod cyn y diwrnod cyntaf. Darperir templed yr amserlen weithredu er gwybodaeth yn **Atodiad 4**. Argymhellir cyfarfod anffurfiol i drafod cynigion yn gynnar o flaen llaw.

Cyfyngiadau Safle

Mae rhagor o fanylion am y safle gan gynnwys cyfansoddiad y ddaear ar gael yn **Atodiad 3**.

Mae angen i unrhyw weithgaredd mewn ardal gwarchod gwreiddiau coed gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Landlord.

Ni ddylai'r digwyddiad gael effaith andwyol ar weithrediadau eraill yng nghyffiniau safle'r digwyddiad, e.e. y maes parcio talu ac arddangos, yr orsaf fysiau, gwaith contractwyr, eiddo preswyl a busnesau. Bydd angen i'r gweithredwr llwyddiannus gytuno ar gynllun gweithredol manwl gyda'r Landlord o flaen llaw.

Rhagdybiaethau Cynllunio

Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol bod pandemig Covid-19 a’r ansicrwydd ynghylch yr adferiad yn dwyn goblygiadau ar drefnwyr digwyddiadau a chynllunio.

Wrth gwrs, bydd yn ofynnol i'r gweithredwr llwyddiannus gydymffurfio â'r holl reoliadau sy’n gysylltiedig â’r coronafeirws sy'n gyfredol ar adeg y masnachu ond at ddibenion y cynnig cais hwn, gofynnir i ddarpar weithredwyr wneud rhagfynegiadau yn unol â'r senario cynllunio canlynol: **Nid oes cyfyngiadau Covid yn berthnasol. Gellir defnyddio'r safle yn unol â gofynion trwyddedu a rheoleiddio cyn Covid.**

Meini Prawf Asesu

Mae Cyngor Caerdydd wedi pennu'r meini prawf canlynol er mwyn gwerthuso cynigion. Caiff pob rhan o'ch cais ei gwerthuso yn erbyn y meini sgorio isod:

*Strwythurwch eich cyflwyniad yn glir o dan y penawdau adran a ddarperir
**Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r ddogfen hon ar gael drwy e-bost gan parcbute@caerdydd.gov.uk

Pennawd Meini Prawf Gwerthuso	**Pwysoliad**
Cynnig ffi'r drwydded	50%
Cynnig/cynigion isafswm ffi sefydlog yn seiliedig ar y senarios cynllunio a amlinellir uchod. Gosodir y cynigion mewn trefn a rhoddir sgorau perthnasol iddynt yn ôl pa mor fanteisiol ydynt i Gyngor Caerdydd yn ariannol. Bydd y cynnig ariannol gorau yn cael y 50 pwynt llawn. Bydd gweithredwr sy'n ymrwymo i ddau o'r cyfnodau amser sydd ar gael yn debygol o sgorio'n uwch na gweithredwr sy'n ymrwymo i un yn unig. Caiff isafswm y ffi logi a gynigir ei ystyried wrth sgorio ceisiadau *yn ogystal ag* unrhyw gynnig arfaethedig ar sail perfformiad a rhagolygon masnachu/ariannol y darpar weithredwr. Gall y darpar weithredwr gynnig strwythuro ei ffi yn seiliedig ar berfformiad ac felly bydd y Landlord yn rhannu rhywfaint o risg a chyfle. Er enghraifft: - Ffi sefydlog + taliad ychwanegol fesul digwyddiad. h.y. cynnydd arfaethedig yn seiliedig ar nifer y digwyddiadau - Ffi sefydlog + taliad ychwanegol fesul pen dros X% o gyfanswm y capasiti a werthir fesul digwyddiad. h.y. cynnydd arfaethedig yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n mynychu nifer benodol o ddiwrnodau digwyddiadau. [**Ymatebwch yn y tabl a ddarperir isod**] *[Y cais mwyaf buddiol yn ariannol yn gyffredinol, yn seiliedig ar ragolygon ariannol gweithredwyr = 50 pwynt. Sgorio'r ceisiadau eraill pro-rata o'u cymharu â'r cynnig ariannol uchaf]*	

Pennawd Meini Prawf Gwerthuso	**Pwysoliad**
Datganiad Gweledigaeth	10%
Rhoddir sgôr allan o 10 yn ôl safon y datganiad. Caiff y canlynol ei ystyried: - Pwynt gwerthu unigryw'r cynnig - Pwynt gwerthu unigryw'r tîm sydd y tu cefn i'r cynnig - h.y. tystiolaeth o'r gallu i gyflawni llwyddiant – hanes, cymysgedd sgiliau cywir, sylfaen gleientiaid sy'n bodoli eisoes, strategaeth farchnata, proffidioldeb, hanes o gydymffurfio â'r gwasanaethau rheoliadol ac amodau trwyddedu heddlu Caerdydd. - Unrhyw gynigion gwerth ychwanegol - Cryfder gweledigaeth/gwerthoedd brand a "golwg a theimlad" y cynigion	
Cynllun Busnes	20%
Rhoddir sgôr allan o 20 yn ôl safon y cynllun. Caiff y canlynol ei ystyried: - Manylion y rhagolygon ariannol a ddarparwyd [5] - Hygrededd y rhagolygon ariannol, y strategaeth farchnata a'r diogelwch cyllid ar gyfer y buddsoddiad gofynnol [15]	

Pennawd Meini Prawf Gwerthuso	**Pwysoliad**
Cynigion gweithredu sy'n benodol i safle	20%
Mae'r Landlord o ddifrif ynghylch ei gyfrifoldeb i weithredu safle digwyddiadau mewn parc cyhoeddus rhestredig gradd II yng nghyffiniau busnesau preifat a phreswylwyr. Dylai cynigwyr gyflwyno cynigion gweithredu amlinellol i sicrhau'r Landlord na fyddai effaith andwyol ar y safle na'r gweithrediadau a'r safleoedd cyfagos. Dylai'r cynigydd roi sylw i'r pwyntiau canlynol: - **Diogelu'r tir** a chynnal gofod digwyddiadau dichonol ar gyfer eraill: Amlinellwch y strategaeth ar gyfer diogelu'r tir a sut y bydd y cynigydd yn cyflawni ei rwymedigaeth i adfer y tir ar ôl ei ddefnyddio. [5] - **Sicrhau rheoli traffig yn effeithiol**: Amlinellwch reolaethau wrth godi a thynnu'r safle yn ogystal ag wrth wasanaethu'r digwyddiad. [5] - **Datganiad amgylcheddol** Amlinellwch gynigion ar gyfer lliniaru effeithiau amgylcheddol andwyol posibl y gweithrediad [5] - **Datganiad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid**. Sut bydd y cynigydd yn sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid yn cael eu deall a'u trin yn llawn? Y rhanddeiliaid allweddol yw: Adran Parciau Cyngor Caerdydd, Panel Cyswllt Digwyddiadau Caerdydd, y Cymdogion [5]	

Telerau Masnachol Allweddol Arfaethedig

Cynigir yr isod fel arweiniad ac er gwybodaeth yn unig. Cytunir ar y Penawdau Telerau Llawn drwy negodi gyda'r cynigydd a ffefrir.

Tymor	**Caniateir i'r trwyddedai fasnachu am un neu ddau gyfnod o'r opsiynau a restrir.**
Y Safle	Ardal a amlinellir yn Atodiad 1 – Ardal Ddigwyddiadau Gerddi Sophia
Ffi'r Drwydded	Pennir yn y cynnig
Costau	Bydd y trwyddedai yn gwneud cyfraniad at ffioedd cyfreithiol rhesymol y Cyngor sy'n dod i gyfanswm o £460.
Bond	Bydd angen bond ad-daladwy (sydd wedi'i eithrio rhag TAW) i yswirio'r Cyngor yn erbyn unrhyw gostau na ragwelir sy'n deillio o'ch gweithgaredd. Cytunir ar y swm drwy negodi gyda'r cynigydd llwyddiannus. Byddai hyn yn cynnwys difrod i'r safle, costau staff ychwanegol oherwydd methiant y trwyddedai a dirwyon yn unol â'n Canllawiau Gwybodaeth i Drefnwyr Digwyddiadau ar y wefan.
Yswiriant	Y trwyddedai fydd yn gyfrifol am sicrhau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cyflogwyr digonol.
Gwastraff a Sbwriel	Y trwyddedai fydd yn gyfrifol am bob casgliad gwastraff a chlirio unrhyw sbwriel sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o fewn radiws 20m o'r safle. Rhoddir manylion yn y cynllun gweithredu.
Cyfleustodau	Mae gan Gerddi Sophia gyflenwad trydan a dŵr ar y safle. Mae defnydd teg o wasanaethau wedi'i gynnwys yn ffi'r drwydded. Codir tâl am drydan a dŵr a ddefnyddir sy'n ychwanegol at y "defnydd teg".
Diogelwch Bwyd	Mae'r trwyddedai yn cytuno i gydymffurfio â gofyniad sylfaenol y Cyngor bod gan arlwywyr dystysgrif sgorio hylendid bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyda sgôr nad yw'n is na 3 allan o 5.
Mynediad	Rhoddir statws deiliad allweddol i'r trwyddedai er mwyn cael mynediad i'r safle. Dylid cynnwys cynllun rheoli traffig.
Safle	Derbynnir y safle fel y'i gwelir. Cyfrifoldeb y trwyddedai fydd unrhyw waith galluogi. Mae'r holl waith yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyngor Caerdydd. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r cynigydd llwyddiannus am waith cynnal a chadw tir sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y safle er gwybodaeth.

Trwydded	Mae ardal ddigwyddiadau Gerddi Sophia yn safle â thrwydded. Bydd yn ofynnol i'r gweithredwr weithio o fewn cyfyngiadau'r Drwydded Safle a chytuno ar drefniadau gyda Chyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru.
COVID-19	Bydd y trwyddedai yn gyfrifol am gadw at reoliadau COVID-19 perthnasol fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.
Arall	Bydd y drwydded yn destun unrhyw delerau ac amodau eraill y mae Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor yn eu hystyried yn briodol.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais

Rhaid anfon ceisiadau i parcbute@caerdydd.gov.uk
Rhaid i'r ceisiadau ddod i law erbyn **dydd Gwener 25 Mehefin 2021** i'w hystyried.

Manylion cyswllt

I gael trafodaeth anffurfiol am y cyfle cysylltwch â Jenny Bradley, Swyddog Digwyddiadau a Chyfathrebu Parc Bute: jennifer.bradley@caerdydd.gov.uk

Amserlen

Nod y Cyngor yw pennu cynigydd a ffefrir o fewn pythefnos wedi'r dyddiad cau.
Mae'r Cyngor yn bwriadu cwblhau telerau'r drwydded gyda'r cynigydd a ffefrir o fewn 6-8 wythnos wedi'r dyddiad cau.
Mae unrhyw farchnata a wneir cyn cwblhau'r telerau yn risg i'r darpar weithredwr yn unig.

Ffurflen Cynnig

*Strwythurwch eich cyflwyniad yn glir o dan y penawdau adran a ddarperir
**Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r ddogfen hon ar gael drwy e-bost gan parcbute@caerdydd.gov.uk

Rwyf i / Rydyn ni, ... wedi darllen yr amodau canllaw sydd ynghlwm

Rwyf / Rydym yn gwneud cais am yr opsiwn dyddiadau:

		Ie / Na
Opsiwn A	Dydd Iau 2 Medi 2021 i ddydd Sul 26 Medi 2021	
Opsiwn B	Dydd Iau 5 Mai 2022 i ddydd Llun 30 Mai 2022	

Rwyf / Rydym drwy hyn yn cynnig, yn amodol ar gontract, y swm hwn am y drwydded (ac eithrio TAW):

Cynnig ffi'r drwydded (50)	*Rhowch y manylion yn y tabl hwn.*
	Opsiwn 2 **Dim cyfyngiadau Covid perthnasol**
Isafswm ffi'r drwydded	£ Nodwch yn glir a gynigir hyn fesul diwrnod / y cyfnod cyfan a.y.b.
Ymgodiad dewisol sy'n gysylltiedig â pherfformiad	Nodwch unrhyw gynnig o ymgodiad arfaethedig sy'n gysylltiedig â pherfformiad
Amcangyfrif o werth yr ymgodiad dewisol sy'n gysylltiedig â pherfformiad fesul cyfnod	£
Amcan gyfanswm gwerth y cynnig yng nghyfnod A	£
Amcan gyfanswm gwerth y cynnig yng nghyfnod B	£
Nodwch pa dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno i ddangos cyfrifiad yr ymgodiad	

Datganiad Gweledigaeth (10)	*Dylech gynnwys hyd at 500 gair yn y blwch hwn neu atodwch y datganiad fel dogfen ar wahân*
Cynllun Busnes (20)	*Dylech gynnwys y cynllun busnes yn y blwch hwn neu wedi ei atodi fel dogfen ar wahân* **Caiff y canlynol ei ystyried:** - Manylion y rhagolygon ariannol a ddarperir [5] Hygrededd y rhagolygon ariannol, y strategaeth farchnata a'r diogelwch cyllid ar gyfer y buddsoddiad gofynnol [15]
Cynigion gweithredu sy'n benodol i safle (20)	*Dylech gynnwys hyn yn y blwch hwn neu wedi ei atodi fel dogfen ar wahân* **Caiff y canlynol ei ystyried:** - Diogelu'r tir [5] - Sicrhau rheoli traffig yn effeithiol [5] - Datganiad amgylcheddol [5] - Datganiad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid [5]

Rwyf /rydym yn deall, wrth wneud y cynnig hwn, y byddwn yn talu'r holl gostau ein hunain ac nad oes unrhyw rwymedigaeth ar y Cyngor i dderbyn unrhyw gynnig.

Rwyf / rydym yn datgan nad ydw / ydym mewn unrhyw gynllun neu gytundeb a fyddai'n golygu:

y byddaf / byddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw berson arall am y swm sy'n gysylltiedig â'r cynnig; a/neu

fy mod / ein bod wedi gosod swm y cynnig ymlaen llaw yn unol â threfniant gosod prisiau.

Rwyf / rydym yn derbyn bod gan y Cyngor yr hawl i ganslo'r contract ac adennill unrhyw golled gennym sy'n deillio o'r fath drefniant os canfyddir bod gweithred lwgr neu dwyllodrus neu ddiffyg wedi digwydd a bod hynny wedi annog y Cyngor i fynd i gontract.

Rwyf / rydym yn cytuno cyn derbyn y cynnig hwn, petai amheuon yn codi mewn cysylltiad â'r swm a gynigir, y caf / cawn y cyfle i esbonio swm y cynnig neu i dynnu'r cynnig yn ôl.

Rwyf / rydym yn cytuno na fydd unrhyw amodau na chyfyngiadau yr ychwanegaf / ychwanegwn at y cynnig neu unrhyw newidiadau diawdurdod yn unrhyw fanylion sy'n rhan o'r cynnig yn effeithio ar y testun gwreiddiol ond gallai hynny arwain at wrthod y cynnig.

Rwyf / rydym yn cytuno y bydd y cynnig yn parhau ar agor i'r Cyngor ei dderbyn ac na chaiff ei dynnu'n ôl, am gyfnod o 28 diwrnod wedi'r dyddiad olaf a nodwyd ar gyfer derbyn cynigion neu unrhyw ddyddiad hwyrach a hysbysir yn lle hwnnw.

Rwyf / rydym yn cadarnhau bod hwn yn gynnig dilys.

Rwyf / rydym yn cytuno i dalu'r ffi gyfreithiol o £460.00

Nid yw hwn yn gynnig sy'n rhwymo a cheidw'r Cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a gaiff.

Rwyf / Rydym yn cytuno i ddychwelyd y wybodaeth y gofynnir amdani o fewn yr amserlenni a nodir.

Enw mewn llythrennau bras: _____

Llofnod: - _____ (Mr/Mrs/Miss/Ms)

Dyddiad: - ___/___/___ Dychwelwch hon fel ffeil PDF wedi ei llofnodi

Os yw'r Cynigydd yn "gorff" neu'n sefydliad corfforedig, dylai ysgrifennydd y cwmni neu'r cyfarwyddwr awdurdodedig "neu ymddiriedolwr" lofnodi. Yn achos partneriaeth dylai partner lofnodi. Yn achos unigolyn, y perchennog ddylai lofnodi.

Ni ddylid datgysylltu'r ffurflen cynnig a dylid cwblhau'r ddogfen gyfan a'i dychwelyd drwy e-bost i: parcbute@caerdydd.gov.uk

Gwefan yr ystadau www.cardiffcouncilproperty.com/cy/

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg: www.cardiffcouncilproperty.com

Ymwadiad:
1. Rhoddir yr wybodaeth uchod ac sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon fel amlinelliad cyffredinol yn unig o ganllawiau ar gyfer partïon â diddordeb ac ni ddylid ei hystyried yn rhan o gynnig neu gontract.
2. Rhoddir pob disgrifiad, dimensiwn, cynllun, cyfeiriad at amod a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannu, a manylion eraill, heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartïon â diddordeb ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith, ond rhaid iddynt eu bodloni eu hunain drwy archwiliad neu fel arall ynglŷn â chywirdeb pob un ohonynt.
3. Ni roddir awdurdod i unrhyw unigolyn a gyflogir gan Gyngor Caerdydd i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl mewn perthynas â'r eiddo/tir hwn.
4. Ceidw'r Cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a gaiff.

Atodiad 1 - Cynllun llinell goch o'r ardal a gynigir dan y drwydded hon



CHIEF EXECUTIVE

Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd
CAERDYDD CF10 4UW
Tel: 029 20872088

County Hall, Atlantic Wharf
CARDIFF CF10 4UW
Tel: 029 20872087

Cyngor Caerdydd

Cardiff Council

Title

Scale: 1:1500

Date: 7/12/2020 at 22:18 PM

Coordinates:

© Crown copyright and database rights (2014).
This copy is produced specifically to supply County Council information NO further copies may be made.

Ordnance Survey 100023376 (2014).

Atodiad 2 - Cyfarwyddiadau Blwch Trydan a Chyflenwad Dŵr ar gyfer Digwyddiadau yng Ngerddi Sophia

Cyfarwyddiadau Blwch Trydan a Chyflenwad Dŵr ar gyfer Digwyddiadau yng Ngerddi Sophia

Bydd angen blwch allweddi a gwybodaeth Digwyddiadau Gerddi Sophia arnoch sy'n cynnwys allweddi perthnasol a gedwir y tu mewn i'r swyddfa yn y ganolfan addysg.



ALLWEDD:

1) Blwch Trydan Gerddi Sophia

2) Gorchuddion Daear

3) Y Mesuryddion Trydan

4) Cabinet Dŵr

Rhaid i unigolion fod yn ddefnyddwyr diogel a medrus

1

Diweddarwyd 3.3.2020

1) BLWCH TRYDAN GERDDI SOPHIA

Mae'r blwch wedi'i leoli ger y clawdd ym man canol y gofod digwyddiadau. Nodir hyn fel '**1**' ar y map uchod.

Bydd angen yr allwedd isod arnoch i agor y blwch:

Y tu mewn i'r blwch mae 6 chyflenwad trydan ar wahân. Noder: Mae gan bob un ddiben gwahanol, ac maent wedi'u nodi ar y panel canolog.

Mae gan bob cyflenwad trydan switsh ar wahân y gellir ei droi ymlaen neu ei ddiffodd yn unigol. Maent wedi'u marcio'n glir. Mae gan Unedau 1 a 6 switsh rheoli ychwanegol.



3

Diweddarwyd 3.3.2020

Mae’r caead diogelwch ar y gwaelod yn caniatáu i'r blwch gael ei **gloi** pan fydd mewn defnydd am resymau iechyd a diogelwch.

Caiff y caead ei agor drwy lacio’r bolltau â llaw ar y cefn a hongian y pin.

2) GORCHUDDION DAEAR

Mae’r Contractwr wedi nodi y dylid cadw’r ddau orchudd pridd lliw golau i ffwrdd o laswellt ac yn weladwy. Mae'r rhain wedi'u lleoli i'r chwith o'r blwch cyflenwi trydan wrth i chi ei wynebu. Mae'r rhain wedi'u marcio fel **'2'** ar y map uchod

3) Y MESURYDDION TRYDAN

Mae'r Mesuryddion Trydan wedi'u lleoli gyferbyn â'r ardal laswellt ar gyfer digwyddiadau yn y blwch trydan du. Nodir hyn fel **'3'** ar y map.

I'W DEFNYDDIO GAN STAFF PARC BUTE YN UNIG

4) CABINET DŴR

Mae'r allwedd i agor y Cabinet Dŵr yn mlwch allweddi a gwybodaeth Digwyddiadau Gerddi Sophia. Mae'r Cabinet Dŵr wedi'i leoli i'r dde o Flwch Trydan Gerddi Sophia.

Gweler y llun isod am atodiad dŵr. Mae'r atodiad trwyn y biben yn 30mm mewn diamedr

5

Diweddarwyd 3.3.2020

Atodiad 3 – Gwybodaeth am Safle Ardal Digwyddiadau Gerddi Sophia

Mae Gerddi Sophia yn barcdir rhestredig gradd II ar gofrestr parciau a gerddi hanesyddol Cadw. Mae'r parcdir i'r de o faes parcio talu ac arddangos Gerddi Sophia gyda mynediad i gerbydau drwy Glos Sophia, oddi ar Heol y Gadeirlan. Bydd cyfnod gorffwys o 4-6 wythnos yn cael ei ychwanegu at y calendr argaeledd ar ôl digwyddiadau â seilwaith sylweddol neu sy'n cael effaith sylweddol ar y tir i ganiatáu i'r tir adfer. Mae'r gofod digwyddiadau wrth ymyl safleoedd preswyl a busnes, gan gynnwys gwesty, felly bydd ceisiadau am ddigwyddiadau yn cael eu hasesu gan ystyried y tarfu posibl ar y rhain.	
Digwyddiadau	Teithiau cerdded / rasys /reidiau beic elusennol Partïon preifat neu gorfforaethol Digwyddiadau cymunedol gyda seilwaith cyfyngedig /cymedrol Digwyddiadau theatr awyr agored Maes parcio gorlif mewn cysylltiad â digwyddiadau ym Mharc Bute neu Gastell Caerdydd
Maint	4,000 metr sgwâr
Mesuriadau	Tua 79m x 52m
Trwydded safle	Mae'r safle yn dod dan Drwydded Safle Gerddi Sophia.

Cyflenwad pŵer ar y safle	Oes - Yn amodol ar bolisi defnydd teg • 16 Amp cyfnod sengl 230 folt (x2) • 32 Amp cyfnod sengl 230 folt (x2) • 63 Amp 3 chyfnod + niwtral 400 folt • 63 Amp cyfnod sengl 230 folt
Cyflenwad dŵr ar y safle	Oes - Yn amodol ar bolisi defnydd teg 1 lleoliad
Charthffosiaeth	Dim
Toiledau	Dim Mae bloc toiledau cyhoeddus ym maes parcio Gerddi Sophia. Sylwch fod yr oriau agor i'r cyhoedd yn gyfyngedig. Ddim yn addas i'w ddefnyddio gan bobl sy'n mynd i ddigwyddiad.

Llinellau ffôn/ISDN	Dim
Cysylltiad Data	Dim

Ystyriaethau Eraill

Cyfansoddiad y tir	Mae'r tir yn cynnwys glaswellt wedi'i atgyfnerthu â ffeibr sydd wedi'i ddylunio i wrthsefyll difrod gan olwynion teiars. Mae'r cyfansawdd yn eithaf bas gyda chraidd caled islaw, felly ni ellir gosod pyst mwy na 0.5m i'r tir, felly efallai y bydd angen angorau balast dŵr i gynnal eich strwythurau.
Cymdogion a sŵn	Mae ardal ddigwyddiadau Gerddi Sophia gerllaw gwesty a llety preswyl. Felly, mae'n rhaid i chi ystyried y niwsans sŵn a allai gael ei achosi gan eich digwyddiad, gan gynnwys yn ystod y cyfnod adeiladu a dadosod. O ran cwrteisi, byddem yn eich cynghori'n gryf i ymgynghori a chyfleu eich cynlluniau ymlaen llaw gydag eiddo cyfagos. Defnyddir y maes parcio ceir, y maes parcio i fysus a'r ffordd fynediad i gynnig lleoedd parcio ar ddiwrnodau gêm fawr yn Stadiwm Principality, a gall achosi tarfu sylweddol ar fynediad i'r safle hwn.
Goleuo	Mae goleuadau yn y maes parcio, ond nid yn yr ardal ddigwyddiadau. Bydd angen goleuadau ychwanegol ar gyfer eich digwyddiad os bydd yn gweithredu ar ôl iddi dywyllu, neu os oes gennych staff sy'n gweithio ar y safle ar ôl iddi dywyllu.
Ffensys	Gan fod yr ardal ddigwyddiadau mewn parc heb ei gloi yng nghanol y ddinas, bydd angen diogelwch a/neu ffens perimedr er mwyn diogelu eich offer, eich gwesteion a'ch staff.

Gwrthdaro â digwyddiadau/lleoliadau eraill yng nghanol y ddinas

Ein cymdogion	Cyn cwblhau eich cais am ddigwyddiad, byddem yn argymell eich bod chi fel Trefnydd Digwyddiadau yn ymchwilio i ddigwyddiadau allweddol yn y ddinas a allai effeithio ar eich digwyddiad. Gallai digwyddiadau mawr yn y ddinas effeithio ar argaeledd a mynediad i'ch dewis leoliad. Mae digwyddiadau yng Nghastell Caerdydd, Stadiwm Principality, Gerddi Sophia Caerdydd (Stadiwm Criced) a *Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd* yn effeithio'n arbennig ar Gae Cooper a Gerddi Sophia. Mae gan wefan Croeso Caerdydd gyfleuster chwilio y gallwch ei ddefnyddio i ddod o hyd i'r holl ddigwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored sydd wedi'u trefnu ar ddyddiad penodol. www.croesocaerdydd.com/events/

	Os yw eich digwyddiad yn debygol o ddenu torfeydd, creu sŵn neu aflonyddwch sylweddol, byddai hefyd yn gwrtais i chi roi gwybod i'r lleoliad cyfagos a thrigolion lleol gan gynnwys y swyddfeydd a'r preswylfeydd newydd ar Heol y Gadeirlan. • National Express yng Ngerddi Sophia • Rhif 10 Caerdydd www.number10cardiff.co.uk • Ystafelloedd Te Pettigrew www.pettigrew-tearooms.com • Stadiwm Principality www.principalitystadium.wales • Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) www.rwcmd.ac.uk/cy • Gerddi Sophia Caerdydd, Stadiwm Criced www.thesseswalec.com • Chwaraeon Cymru www.chwaraeon.cymru

Mynediad at y safle

Mynediad i Gerddwyr	Y mynedfeydd agosaf i'r safle hwn o'r parc yw o: • Stryd y Castell (i'r de) • Parc Bute dros Bont y Mileniwm dros Afon Taf (i'r dwyrain) • Clos Sophia a'r 'lôn feingefn' (i'r gogledd a'r gorllewin)
Cyfyngiadau Cerbyd/Llwyth	• Mae rhes o folardiau y gellir eu cloi a'u tynnu wedi'i lleoli ar hyd y ffin flaen (gorllewinol) i atal cerbydau heb awdurdod rhag defnyddio'r ardal ddigwyddiadau ac i alluogi newid y pwyntiau mynediad/gadael er mwyn lleihau difrod i laswellt. Mae 4 'gorsaf ddocio' wag yn y pen deheuol i dderbyn y bolardiau a dynnwyd i'w cadw'n ddiogel. Gellir cael allweddi i dynnu'r bolardiau gan Oruchwyliwr y Safle. • Sylwch, nid oes mynediad i mewn nac allan i gerbydau ar Stryd y Castell / Heol Ddwyreiniol y Bont-faen drwy'r bolardiau a'r gatiau i'r de. Mae hyn at ddefnydd brys yn unig. • DS: Byddai digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn Stadiwm Principality neu Stadiwm Criced Gerddi Sophia yn effeithio ar faes parcio Gerddi Sophia, felly byddai angen i unrhyw ddigwyddiad sy'n dymuno archebu'r lle hwn wirio dyddiaduron digwyddiadau'r stadia hyn yn gyntaf.

Mannau Parcio Agosaf i'r Trefnydd Digwyddiadau ac Ymwelwyr	• Gall ardal ddigwyddiadau Gerddi Sophia ei hun ddarparu ar gyfer hyd at 100 o leoedd. Caiff y rhain eu harchebu drwy'r dulliau ymgeisio arferol ar gyfer digwyddiadau. • Mae gan faes parcio Gerddi Sophia 320 o leoedd parcio talu ac arddangos yn y prif faes parcio ac ar hyd 'lôn feingefn' Gerddi Sophia, sy'n rhedeg ar hyd blaen (gorllewin) yr ardal ddigwyddiadau. Dylid archebu'r lleoedd hyn drwy Wasanaethau Parcio Adran Traffig a Thrafnidiaeth Cyngor Caerdydd. • Mae 9 lle bws gerllaw'r prif faes parcio. Mae'r rhain ar gael i'w defnyddio'n gyffredinol drwy'r peiriannau tocynnau talu ac arddangos. • Rhaid i chi drafod a threfnu defnydd o leoedd talu ac arddangos yn uniongyrchol gyda'r tîm Gwasanaethau Parcio ond gwnewch eich cyswllt o fewn yr Adran Parciau / Digwyddiadau yn ymwybodol o'r penderfyniadau, er gwybodaeth. • Oni bai eich bod yn cael gwybod yn glir fel arall, dylai trefnwyr digwyddiadau gymryd cyfrifoldeb llwyr am gyfathrebu â'r tîm Gwasanaethau Parcio ar bob mater sy'n effeithio ar leoedd parcio talu ac arddangos. Nid yw'r Rheolwr Digwyddiadau a Goruchwyliwr y Safle yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am gyfathrebu na negodi rhwng y partïon. Gwneir hyn er mwyn cadw rolau a chyfrifoldebau a sianeli cyfathrebu priodol yn glir.

Cyngor ar gyfer asesu risg a chynllunio yn ôl y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Chynllunio)

• Gall cyffiniau'r ardal ddigwyddiadau fod yn brysur. Fe'i defnyddir gan gerddwyr, beicwyr a cherbydau eraill. Gallent rannu llwybrau a ffyrdd gyda chynulleidfa a cherbydau'r digwyddiad. • Mae'r ardal ddigwyddiadau ar gael i gerddwyr ar bob adeg oni bai ei bod wedi'i ffensio'n ddiogel. • Gall parcio heb awdurdod rwystro cerbydau rhag cael mynediad i'r safle. Dylid sicrhau llwybrau mynediad ymlaen llaw i atal oedi. • Mae busnesau a phreswylfeydd preifat yn rhannu'r llwybr mynediad i gerbydau i'r ardal ddigwyddiadau. • Mae stiwardiaid traffig Cyngor Caerdydd yn cymryd dros maes pacio Gerddi Sophia a lleoedd talu ac arddangos ar hyd lôn feingefn Gerddi Sophia pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal yn Stadiwm Principality/Stadiwm SWALEC. Cymerwch olwg ar Amserlen

Digwyddiadau Dinas Caerdydd i weld a oes digwyddiadau'n gwrthdaro â'ch dyddiadau llogi.

- Mae potensial ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fel y disgwylir mewn unrhyw barc yng nghanol y ddinas.

- Nid oes goleuadau ar y safle ei hun ac mae'n dywyll ar ôl machlud yr haul.

- Mae'r safle'n agos at fusnesau a phreswylfeydd preifat. Rhaid ystyried aflonyddwch sŵn ar y safleoedd cyfagos hyn a chynllunio ar ei gyfer i atal niwsans. Ystyriwch gysylltu â phreswylfeydd ar: Heol y Gadeirlan, Sophia Walk, Hamilton Street, Talbot Street, Teras Coldstream, Belgrave Court, Heol Isaf y Gadeirlan, West Lee, Green Street, Mark Street, Hen Dafarn Westgate
- Mewn tywydd gwlyb gall y tir fynd yn feddal iawn a gall dŵr sefyll ar wyneb ffyrdd a glaswellt.

- Mae pŵer a dŵr ar gael ar y safle. Gall Rheolwr y Parc ganiatáu mynediad ar gais.

- Mae gwasanaethau claddedig yn y Lleoliad ac o'i amgylch. Lle y bo'n hysbys, mae'r rhain wedi'u nodi ar gynllun sylfaenol yr ardal digwyddiadau.
  Fodd bynnag, nid yw'r Lleoliad yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gywirdeb y cynllun hwn. Mae'r Prif Gontractwr yn gyfrifol am wneud cais am chwiliadau RASWA (Deddf Ffyrdd a Gwaith Stryd) cyfredol a nodi presenoldeb gwasanaethau (e.e. sganio CAT) os yw'n bwriadu torri tir yn y Lleoliad neu o'i amgylch. Gall y Lleoliad gyrchu chwiliadau RASWA ar gais.

- Nid oes cyfleusterau lles ar y safle ar hyn o bryd.

Atodiad 4 - Templed yr Atodlen Weithredu

Outdoor Event Operational Plan Template

Event **Location** **Date**	

	Subject	Contents	Comments
1	**Event Concept**	Type of event Start/Finish Times	
2	**Event Management Structure** (provide contact name, number, email address)	Promoter DPS Safety officer Major partners	

3	**Performance**	Type & no. of performers	
4	**Attendees/public**	Size M/F ratio Age-group	
5	**Stewarding and security systems**	Job descriptions Provided by	
6	**First aid**	Provided by Level of cover	
7	**Food/Refreshments**	Provided by	
8	**Bars/ Alcohol**	License/restrictions	

		Operating schedule, Underage drinking Excess sales Offers Drinking utensils, Drug Safety Policy Designated Premises Supervisor (DPS) Nominated Personal License holder SIA Security staff No.s Supplier Stewarding No.s Payment of Drinks	

		Vulnerable Person Policy Music / DJ performers / stages	
9	**Additional Information**		

Atodiad 5

DEDDF TRWYDDEDU 2003

AMODAU TRWYDDED SAFLE

Safle: **Ardal ddigwyddiadau Gerddi Sophia**

Clos Sophia, Caerdydd

Rhif Trwydded **CCCP/01095**

1. Caniateir y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol gan y Drwydded Safle a nodir uchod.

(1) Oni nodir yn wahanol, gall y safle fod ar agor i'r cyhoedd 24 awr y dydd saith diwrnod yr wythnos.

(2) Mae'r Drwydded wedi'i chyfyngu i werthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno yn ystod yr oriau canlynol:

Dydd Sul i ddydd Iau : 10:00 tan 23:30

Dydd Gwener a dydd Sadwrn : 10:00 tan 01:30

(3) Caniateir cynnig adloniant a reoleiddir ar ffurf dramâu, ffilmiau, digwyddiadau chwaraeon dan do yn ystod yr oriau canlynol: Dydd Sul i ddydd Sadwrn : 08:00 - 24:00

(4) Caniateir darparu adloniant rheoledig ar ffurf bocsio neu reslo, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau dawns ac unrhyw beth tebyg i gerddoriaeth neu ddawns a darparu cyfleusterau adloniant ar gyfer gwneud cerddoriaeth, dawnsio ac adloniant o ddisgrifiad tebyg yn ystod yr oriau canlynol:

Dydd Sul i ddydd Iau 08:00 tan 24:00

Ddydd Gwener a dydd Sadwrn: 08:00 tan 02:00

(5) Caniateir darparu lluniaeth yn y nos yn ystod yr oriau canlynol:

Nos Sul i nos Iau 23:00 tan 24:00

Nos Wener a nos Sadwrn: 23:00 tan 02:00

2. Mae'r amodau canlynol ynghlwm wrth y Drwydded Safle a nodir uchod:

a) Rhaid i'r Goruchwylydd Safle Dynodedig fod yn gyflogai i Gyngor Caerdydd.

b) Bydd Deiliad Trwydded Bersonol yn bresennol bob amser pan fydd alcohol yn cael ei werthu.

c) Bydd deiliad y Drwydded yn hysbysu'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch ar gyfer Digwyddiadau Awyr Agored yng Nghaerdydd, sef y Panel Cyswllt Digwyddiadau am unrhyw gynnig i ganiatáu digwyddiad, a darparu gwybodaeth am ddyddiad ac amseroedd, yr hyrwyddwr/trefnydd, natur a maint y digwyddiad a manylion priodol ynghylch ble mae'r digwyddiad yn gofyn am ddefnyddio safle neu dir ychwanegol sy'n destun trwydded a ddelir gan berson neu fusnes arall, o leiaf 56 diwrnod cyn y digwyddiad. Os rhoddir llai na 56 diwrnod o rybudd, ni fydd yr awdurdod yn herio unrhyw amod(au) a weithredir.

d) Bydd deiliad y Drwydded yn cyflwyno amserlen weithredu ar wahân i'r Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer pob digwyddiad lle bydd gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal ar y safle. Dylid ei chyflwyno yn ysgrifenedig o leiaf 56 diwrnod cyn y digwyddiad. Bydd yr Heddlu yn rhoi gwybod i ddeiliad y Drwydded Safle yn ysgrifenedig am unrhyw amodau a ddylai fod yn berthnasol i weithrediad y digwyddiad o fewn 28 diwrnod o gael gwybod yr amserlen. Os rhoddir llai na 56 diwrnod o rybudd, ni chaiff yr ymgeisydd herio unrhyw amod(au) a roddir. Dylai fod gan yr Heddlu awdurdod i roi feto ar unrhyw ddigwyddiad sy'n digwydd drwy hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod.

e) Ni fydd mwy na 12 cais y flwyddyn ac eithrio ceisiadau a wneir o dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Rhaid llunio cynllun gweithredu sy'n cwmpasu'r mesurau ychwanegol a gymerir i reoli trosedd ac anhrefn ar yr achlysuron hyn a'i gyflwyno i'r Heddlu 14 diwrnod cyn y digwyddiad. Bydd gan yr Heddlu feto absoliwt mewn perthynas ag unrhyw un o'r achlysuron hyn drwy hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod.

f) Bydd yn rhaid i drefnwyr digwyddiadau mawr wneud cyflwyniad i'r Panel Cyswllt Digwyddiadau. Bydd yn rhaid iddynt lunio datganiad dull ac asesiadau risg ar gyfer yr holl weithgareddau ar y safle a hierarchaeth gwneud penderfyniadau a chyfrifoldeb am bob agwedd ar y digwyddiad gan gynnwys materion trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd. Bydd disgwyl iddynt gadw at yr Amodau Enghreifftiol ar gyfer Digwyddiadau fel yr argymhellwyd gan y Panel Cyswllt Digwyddiadau. Bydd y rhain yn rhan o Amodau Llogi'r safle.

g) Lle bo angen, cyflogir staff diogelwch trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

h) Darperir Cymorth Cyntaf a fydd yn ddigonol ar gyfer maint a phroffil y gwesteion sy'n mynychu digwyddiad.

i) Bydd lefelau sŵn yn cael eu hystyried cyn digwyddiad a bydd lefelau'n cael eu pennu fel yr argymhellwyd gan Swyddogion Llygredd Sŵn Cyngor Caerdydd.

j) Bydd sbwriel yn cael ei glirio o'r safle yn syth ar ôl unrhyw ddigwyddiad.

k) Gweithredir mesurau i sicrhau diogelwch plant sy'n bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad.

Amodau Gorfodol

Amodau gorfodol pan fo'r drwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

(1) Ni cheir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle -

(a) ar adeg pan nad oes goruchwylydd safle dynodedig o safbwynt y drwydded safle, neu

(b) ar adeg pan nad yw'r goruchwylydd safle dynodedig yn dal trwydded bersonol, neu os yw ei drwydded personol wedi ei hatal.

(2) Rhaid i bob cyflenwad o alcohol dan y drwydded safle gael ei wneud neu ei awdurdodi gan berson sy'n dal trwydded bersonol.

Amod gorfodol pan fo'r trwydded yn awdurdodi arddangos ffilmiau

(1) Mae derbyn plant i ddangosiad unrhyw ffilm wedi'i gyfyngu yn unol â'r argymhellion a roddwyd i ffilmiau gan y corff dosbarthu ffilmiau a ddynodwyd dan Adran 4 Deddf Recordiadau Fideo 1984, hynny yw Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

(2) Dan yr Amod hwn -

mae "plant" yn golygu personau o dan 18 oed; a

"chorff dosbarthu ffilmiau" yw'r person neu'r personau a ddynodwyd yn awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (p.39) (awdurdod i benderfynu addasrwydd gwaith fideo i'w ddosbarthu, hynny yw Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain).

Amod gorfodol pan fo'r drwydded safle yn cynnwys Amod, y dylai un neu fwy o unigolion fod ar y safle ar adegau penodol i gyflawni gweithgareddau diogelwch:

(1) Rhaid i bob unigolyn o'r fath gael ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

(2) Ond nid oes dim yn (1) uchod sy'n mynnu bod rhaid gosod amod o'r fath -

(a) mewn perthynas â safle ym mharagraff 8(3)(a) Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (p. 12) (safle â thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau), neu

(b) yng nghyswllt safle mewn perthynas ag -

(i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) yr Atodlen honno (mangre sy'n cael ei defnyddio gan glwb yn unig gyda

thystysgrif safle clwb, o dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau neu o dan drwydded hapchwarae), neu

(ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) yr Atodlen honno (achlysuron a bennwyd gan reoliadau dan y Ddeddf honno).

(3) At ddibenion yr adran hon -

(a) ystyr "gweithgareddau diogelwch" yw gweithgareddau y mae paragraff 2(1)(a) yr Atodlen honno yn gymwys iddynt, ac mae
(b) paragraff 8(5) yr Atodlen honno (dehongliad o gyfeiriadau at achlysur) yn gymwys yn y modd y mae'n gymwys o safbwynt paragraff 8 yr Atodlen honno.

Llofnod: _____ Dyddiad: 18 Medi 2006

Paul Shone

Trwyddedu a Gwasanaethau Strategol